Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad rhanbarthol ar raglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yng Ngogledd Cymru

## Dyddiad yr ymweliad monitro: Mehefin 2023

## gan


## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

## Ynglŷn â rhanbarth Gogledd Cymru

Ymwelodd arolygwyr â'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid (is-gontractwyr) i adolygu cyflwyno rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn ystod blwyddyn gyntaf contract Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad rhanbarthol hwn yn rhoi crynodeb o adborth o'r ymweliad hwn.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- arsylwi cyfranogwyr mewn sesiynau
- siarad â chyfranogwyr ac adolygu eu cynlluniau dysgu unigol a'u dogfennau allweddol
- arsylwi tiwtoriaid a chyfarfod ag arweinwyr ar draws y sefydliadau
- cyfarfod â staff allweddol o Cymru'n Gweithio a phob awdurdod lleol i adolygu'r broses atgyfeiriadau
- adolygu ansawdd a phriodoldeb y llety a'r adnoddau ar gyfer y rhaglen

Yn rhanbarth Gogledd Cymru, mae tri darparwr arweiniol a thri phartner sy'n is-gontractwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno rhaglenni ledled ardaloedd awdurdodau lleol Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

Dyma'r darparwyr arweiniol a'u partneriaid sy'n is-gontractwyr:

Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) – darparwr arweiniol

- Hyfforddiant Gogledd Cymru
- Achieve More Training

Associated Community Training (ACT) Ltd – darparwr arweiniol

- Motivational Preparation College for Training (MPCT)

Coleg Cambria – darparwr arweiniol

Adeg ein hymweliad, roedd tua 218 o gyfranogwyr wedi'u cofrestru ar y rhaglen. O'r rheiny, roedd 47% wedi'u cofrestru ar yr elfen ymgysylltu; 50% ar yr elfen ddatblygu; a 3% ar yr elfen gyflogaeth.

## Prif ganfyddiadau

Mae nifer y cyfranogwyr sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen gryn dipyn yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Priodolir hyn i'r ffaith fod pobl ifanc wedi aros yn yr ysgol neu'r coleg o ganlyniad i raddau wedi'u pennu gan ganolfannau, a mwy o gyfleoedd mewn cyflogaeth ar gyfer y rhai heb brofiad, medrau na chymwysterau. Mae darparwyr hefyd yn mynegi pryder ynghylch 'carfan goll' bosibl sy'n awgrymu y gallai fod yna bobl ifanc o hyd sy'n amharod i ymgysylltu ag unrhyw addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o ganlyniad i effeithiau'r pandemig a'r ynysu cysylltiedig.

O fewn y rhanbarth hwn, mae rhaniad cymharol gyfartal o gyfranogwyr yn dilyn yr elfennau ymgysylltu a datblygu, ac ychydig iawn ohonynt wedi cofrestru ar yr elfen gyflogaeth. Mae darparwyr yn dweud bod hyn i raddau helaeth o ganlyniad i bobl ifanc yn dewis rolau amser llawn â thâl pan fyddant yn barod ar gyfer cyflogaeth.

Mae atgyfeiriadau o Cymru'n Gweithio yn isel, ac o'r bobl ifanc hynny sy'n cael mynediad at y rhaglen trwy'r llwybr hwn, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gadael yr ysgol ac wedi derbyn gwybodaeth am y rhaglen fel rhan o gymorth pontio ysgolion. Mae atgyfeiriadau uniongyrchol yn cyfrif am gyfran fwy o lawer o'r cyfranogwyr, ac mae'r opsiwn recriwtio uniongyrchol hwn wedi cael ei groesawu gan ddarparwyr sy'n defnyddio ystod o strategaethau i gyrraedd y gynulleidfa darged, gan gynnwys dosbarthu taflenni, apiau cyfryngau cymdeithasol a chynlluniau cymhelliant i gyfeirio ffrind. Mae pob darparwr yn cydnabod mai dull personol cnocio ar ddrysau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd y rhai sydd wedi ymddieithrio, er yn cydnabod bod angen adnoddau sylweddol ar gyfer hyn.

Pan gaiff cyfranogwyr eu cyfeirio trwy Cymru'n Gweithio, mae gwybodaeth am atgyfeiriadau yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am ddysgu blaenorol, rhwystrau, ac anghenion cymorth. Mae gwybodaeth atgyfeiriadau uniongyrchol yn llai manwl, ac mae darparwyr yn gyffredinol yn casglu mwy o wybodaeth wrth iddynt ddod i adnabod y person ifanc. Gall hyn greu heriau gan nad yw anghenion cymorth bob amser yn amlwg ar unwaith, ac ni chynllunnir ar eu cyfer.

Mae yna heriau o ran rhannu data ar lefel partneriaeth, lleol a rhanbarthol, sy'n effeithio ar gyrraedd cyfranogwyr addas. Er enghraifft, nid yw gwybodaeth yn ymwneud â rhai sy'n gadael coleg bob amser yn cael ei rhannu â darparwyr Twf Swyddi Cymru+ mewn modd amserol, a gall hyn arwain at oedi mewn ymyriadau.

Ceir darlun amrywiol o ran cysylltiadau ag ysgolion lleol, ac mae gan rai darparwyr berthnasoedd cryf a sefydledig lle estynnir gwahoddiad i ddarparwyr siarad mewn gwasanaethau a gweithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion. I'r gwrthwyneb, ceir enghreifftiau o ysgolion eraill nad ydynt yn deall nac yn hyrwyddo'r rhaglen.

Cynhelir sesiynau a addysgir mewn amrywiaeth o golegau a lleoliadau cymunedol, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd a rhwystrau posibl. Mae gofodau'n amrywiol, gyda rhai ohonynt yn gyfforddus ac yn briodol gydag enghreifftiau o wybodaeth ddefnyddiol a gwaith cyfranogwyr wedi'u gosod ar waliau ystafelloedd dosbarth. Mewn achosion eraill, mae cyfleusterau'n gyfyngedig ac nid ydynt yn ysgogol nac yn ddeniadol.

Mae cymorth yn gynhwysfawr ac yn cynnwys:

- cyfle i droi at arbenigwyr sy'n gallu cefnogi materion lles ac iechyd meddwl
- mynediad at ofodau ymneilltuo lle mae brecwast a chynhyrchion hylendid ar gael yn rhad ac am ddim
- ad-daliad ariannol am gostau teithio
- gweithgareddau allgyrsiol sy'n ymestyn profiad y cyfranogwr.

Mae sesiynau'n ddifyr, ar y cyfan, ac mae'r sawl sy'n eu cyflwyno yn defnyddio ystod o adnoddau a gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb cyfranogwyr ac yn gwneud iddynt weithio'n ddiwyd. Mae tiwtoriaid ac anogwyr swyddi / gweithwyr cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo'n briodol ac nad oes unrhyw beth yn tarfu arnynt. Fodd bynnag, collir rhai cyfleoedd i wneud y sesiynau yn rhai sy'n canolbwyntio mwy ar y cyfranogwr neu bersonoli tasgau sy'n ei gysylltu â'i feysydd diddordeb.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae cyfranogwyr yn dangos ymddygiadau cadarnhaol, lefelau cryf o ymgysylltu, a pharodrwydd i gyfrannu. Maent hefyd yn datblygu medrau cadarn a gwybodaeth sy'n benodol i'r pwnc. Mae'r bobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn gwneud cynnydd ac yn darparu enghreifftiau cadarn i gefnogi hyn, sy'n cynnwys medrau cyfathrebu a rhyngbersonol gwell. Fodd bynnag, dywed llawer ohonynt y byddent yn ffafrio cael mynediad at gynnwys sy'n fwy penodol i bwnc yn ymwneud â'u meysydd diddordeb, yn hytrach na medrau gwaith generig.

Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn barchus ac yn gwerthfawrogi'r profiad dysgu, gan nodi eu bod yn cael eu trin fel oedolion a'u bod yn cael dewisiadau ynglŷn â sut maent yn dysgu ac yn ymdrin â thasgau. Mae'n amlwg fod perthynas gref rhwng y bobl ifanc a'r staff sy'n amlwg yn gyfarwydd â'r garfan a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae llawer o bobl ifanc wedi nodi meysydd diddordeb, ond lleiafrif ohonynt yn unig sydd â syniad clir am lwybrau dilyniant a'r camau nesaf. Yn ddiddorol, mae llawer o gyfranogwyr yn awgrymu mai eu nod yw dychwelyd i'r coleg, er bod rhai ohonynt wedi cofrestru ar y rhaglen hon gan na chawsant brofiad cadarnhaol o'r coleg. Roedd rhai o'r bobl ifanc y siaradom â nhw yn gwbl anymwybodol am lwybrau prentisiaeth ehangach.

Pan fydd dysgwyr datblygedig yn dangos y cymhelliant a'r brwdfrydedd i ymgymryd â phrofiad gwaith, mae eu cyfleoedd yn aml yn gyfyngedig. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd bod cyflogwyr yn dewis cefnogi dysgwyr prentisiaeth ymrwymedig y maent yn gwybod y byddant gyda nhw am nifer o flynyddoedd, yn hytrach na phrofiad gwaith tymor byr sy'n aml yn tarfu ar arferion busnes. Mewn rhai achosion, mae cyflogwyr wedi cael profiadau gwael yn y gorffennol gyda chyfranogwyr sydd heb ddisgyblaeth na chymhelliant. O ganlyniad, nid yw cyfranogwyr bob amser yn elwa ar y cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd.

Caiff llawer o gyfranogwyr eu hannog i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy weithio trwy weithgareddau datblygu Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru

(WEST). Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sydd wedi ennill y cymwysterau hyn hyd yma.

Mae tiwtor mewn un darparwr yn sgwrsio ar lefel un i un yn Gymraeg gyda'r nifer fach o gyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Dywed ychydig iawn o gyfranogwyr eu bod yn siarad Cymraeg yn hyderus, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr hyn yn dilyn eu rhaglen yn ddwyieithog. Cyflwynir y rhan fwyaf o'r addysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae gan ddarparwyr ymagwedd ymatebol o ran gallu cynnig y ddarpariaeth lle nodir bod galw amdani. Fodd bynnag, mae problemau hyfywedd oherwydd niferoedd isel yn golygu nad yw'r ddarpariaeth o reidrwydd yn gynaliadwy, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, ac mewn un achos, tynnwyd y ddarpariaeth yn ôl. Yn y sefyllfa hon, cynigiwyd lleoliadau eraill i gyfranogwyr, a dewisodd rhai ohonynt fanteisio ar y cyfle hwn, tra gadawodd cyfranogwyr eraill y rhaglen.

Mewn rhai achosion, gallai cael mynediad at y rhaglen wyneb yn wyneb gynnwys defnyddio dau neu dri bws a theithio am ddwy awr mewn un cyfeiriad. Ceir cyfleoedd cyfyngedig ar-lein i gefnogi mynediad ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth â theithio neu ymgysylltu. Mae arweinwyr o'r farn bod lle i archwilio ymgysylltu cynyddol ar-lein ac maent yn cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

Mae darparwyr yn cydnabod cryfderau eu sefydliadau ei gilydd ac maent yn cynllunio darpariaeth a chyfrifoldebau yn unol â hynny. Er enghraifft, mae gan rai darparwyr ofodau cymunedol mwy hyblyg, felly mae'r rhain yn fwy addas ar gyfer cyfranogwyr yr elfen ymgysylltu.

Mae gweithio mewn partneriaeth a chymorth yn adlewyrchu'r consortia dysgu yn y gwaith ehangach, a cheir ymagwedd Cymru gyfan at fynd i'r afael â materion gweithredol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ymagwedd ranbarthol na rhannu arfer dda. Er enghraifft, mae arweinwyr mewn un darparwr hyfforddiant wedi'i is-gontractio yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd arfer dda o fewn eu consortiwm dysgu yn y gwaith eu hunain ac maent yn cydnabod y byddai ymestyn hyn i gynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr eraill Twf Swyddi Cymru+ o bosibl yn werthfawr.

## Argymhellion

Dylai'r darparwyr arweiniol, Cymru'n Gweithio a phartneriaid yn y rhanbarth:

A1 Archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ranbarthol ar lefel strategol a gweithredol gyda'r bwriad o rannu gwybodaeth, profiadau ac arfer orau.

A2 Parhau i nodi cyfleoedd i ymgysylltu â chyfranogwyr posibl o ardaloedd daearyddol mwy anghysbell, o ran lleoliad, dulliau cyflwyno, neu adnoddau a rennir.

## Atodiad: Ynglŷn â Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+

Mae rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen cymorth hyfforddiant, datblygiad a chyflogadwyedd unigol ar gyfer dysgwyr 16-18 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru yr asesir nad ydynt mewn addysg amser llawn, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Ei nod yw rhoi medrau, cymwysterau a phrofiad i bobl ifanc gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio o amgylch y person ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc NACH a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial.

Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y **Gwarant i Bobl Ifanc** (cynnig cymorth gwarantedig i bobl dan 25 mlwydd oed yng Nghymru ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig).

Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen hon ledled pedair ardal ranbarthol, sef gogledd Cymru, de orllewin a chanolbarth Cymru, canol de Cymru a de ddwyrain Cymru. Mae pob rhanbarth yn cynnwys darparwyr sy'n gontractwyr arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid sy'n is-gontractwyr i ddarparu rhaglen ddysgu a/neu ddatblygu integredig.

Mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn cyfeirio pobl ifanc at ddarparwyr y rhaglen ac yn darparu asesiad cychwynnol o'r cymorth sydd ei angen, gan nodi elfennau priodol y rhaglen:

**Ymgysylltu** – Mae'r elfen hon yn helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr gyrfa yr hoffent ei ddilyn.

**Datblygu** – Mae'r elfen hon yn darparu cymorth neu raglenni sy'n cynnig cymwysterau i helpu'r person ifanc i symud ymlaen i astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Cyflogaeth** – Mae'r elfen hon yn darparu cyfleoedd gwaith â chymhorthdal ar gyfer pobl ifanc.

Bydd pobl ifanc sy'n dilyn y rhaglen, y cyfeirir atynt fel cyfranogwyr, yn cael cynllun dysgu unigol (CDU). Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu a'i gyflwyno gan ddarparwyr a fydd yn eu cynorthwyo i ennill y medrau, y cymwysterau a'r profiad i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth (yn cynnwys hunangyflogaeth) neu brentisiaeth.

Disgwylir i'r darparwyr arweiniol ddyfeisio a chyflwyno cymorth unigol hyblyg a chreadigol sy'n cynnwys ystod eang o weithgarwch – y tu hwnt i ddatblygu hyfforddiant a medrau. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu, i ddefnyddio lleoliadau gwaith cyflogwyr, treialon gwaith, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol, cyfleoedd dysgu mewn canolfannau a chyflogaeth â chymhorthdal cyflog.

Gellir cael mwy o wybodaeth am fanyleb y rhaglen ar wefan Llywodraeth Cymru:

Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU